# Diwygio Cyfraith Breifat Cafcass Cymru
## Cwestiynau Cyffredin Rheol 16.4: Pobl Ifanc
**Mehefin 2023**

### Pam mae gen i Warcheidwad Plant?

- Mae dy deulu wedi gofyn i'r llys teulu helpu i wneud trefniadau ar dy gyfer di.
- Mae'r llys teulu wedi gofyn i warcheidwad plant ddweud mwy amdanat cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud.
- Bydd y gwarcheidwad plant yn siarad â'r llys teulu ar dy ran,  a dyna pwy yw dy lais yn yr achos llys.

### Beth yw Gwarcheidwad Plant?

- Gweithiwr cymdeithasol sy'n gweithio i Cafcass Cymru yw gwarcheidwad plant.
- Ei rôl yw sicrhau bod y llys teulu yn gwybod amdanat ti a dy fywyd, beth wyt ti'n ei feddwl a beth hoffet ti iddo ddigwydd.
- Bydd y gwarcheidwad plant yn rhoi cyngor i'r llys teulu fel bod unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud yn ddiogel ac er dy fudd gorau. Fel arfer, bydd yn ysgrifennu ei gyngor mewn adroddiad.
- Bydd y gwarcheidwad plant yn cyfarwyddo cyfreithiwr ar dy gyfer. Fel arfer, bydd y gwarcheidwad plant a dy gyfreithiwr yn mynd i wrandawiadau'r llys teulu gyda dy rieni neu ofalwyr.

### Sut y bydd y Gwarcheidwad Plant yn gwybod beth rydw i'n ei feddwl?

- Bydd y gwarcheidwad plant yn treulio amser yn gwrando arnat ti.
- Bydd yn gwneud yn siwr dy fod yn deall beth sy'n digwydd, beth fydd yn digwydd nesa a phwy arall y bydd yn siarad â nhw o dy deulu.
- Bydd y gwarcheidwad plant yn gwneud yn siwr dy fod yn cael cyfle i ddweud dy ddweud am benderfyniadau sy'n effeithio arnat ti.
- Mae'n deall y gall fod yn anodd i ti wybod sut rwyt ti'n teimlo neu beth hoffet ti iddo ddigwydd.
- Gall ddod â thaflenni gweithgarwch neu weithgareddau eraill i'w helpu i ddeall beth sy'n bwysig i ti a beth yr hoffet ti iddo ddigwydd.
- Bydd yn esbonio'n ofalus beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth y byddwch chi'n siarad amdani. Yr enw ar hyn yw cyfrinachedd.

## Ble bydda i'n cwrdd â'r Gwarcheidwad Plant?

- Bydd y gwarcheidwad plant yn penderfynu ar hyn gyda ti.  Gall y gwarcheidwad plant gwrdd â ti yn dy gartref i gyflwyno ei hun neu gallai wneud hyn dros y ffôn neu mewn galwad fideo os byddai'n well gen ti. Bydd yn siarad â ti am ble yr hoffet ti gwrdd ag ef y tro nesaf.
- Gelli di siarad â dy warcheidwad plant am ble fyddai orau. Dylai fod yn rhywle y gelli di a'r gwarcheidwad plant siarad yn breifat, fel y gelli di ddweud dy ddweud heb boeni.
- Gallai hyn fod yn dy ysgol, neu rywle arall fel ystafell breifat yn swyddfeydd Cafcass Cymru.
- Fel arfer, bydd y gwarcheidwad plant yn trefnu i ti gwrdd â'r cyfreithiwr a fydd yn siarad ar dy ran yn y llys teulu.

## Sut bydd y Gwarcheidwad Plant yn dweud fy marn wrth y llys teulu?

- Fel arfer, bydd y gwarcheidwad plant yn ysgrifennu amdanat ti a dy deulu mewn adroddiad ar gyfer y llys teulu.
- Bydd yn esbonio'n ofalus i ti beth y bydd yn ei ysgrifennu amdanat ac yn siarad â ti am pa wybodaeth y byddet ti'n hoffi i'r llys teulu ei gwybod.
- Os hoffet ti ysgrifennu llythyr neu dynnu llun i'r Barnwr bydd y gwarcheidwad plant yn ei gynnwys gyda'i adroddiad fel y gall y llys teulu weld beth rwyt ti am ei ddweud yn dy eiriau neu dy luniau dy hun.
- Os hoffet ti gwrdd â'r barnwr yn dy achos, bydd y gwarcheidwad plant yn ceisio trefnu hyn.
- Bydd y gwarcheidwad plant hefyd yn dweud wrth y llys teulu beth yw ei farn am y canlyniad gorau i ti.
- Y llys teulu fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol.

## Beth os oes gen i weithiwr cymdeithasol yn barod?

- Gweithiwr cymdeithasol yn Cafcass Cymru yw'r gwarcheidwad plant, ac nid yw'n gweithio i'r Awdurdod Lleol (gwasanaethau plant).
- Os oes gennyt ti weithiwr cymdeithasol o'r Awdurdod Lleol, bydd yn parhau i weithio gyda ti a dy deulu.
- Fel arfer, bydd y gwarcheidwad plant yn siarad â dy weithiwr cymdeithasol a gall fynd i gyfarfodydd a drefnwyd ganddo.

### Beth os na fydda i'n cytuno â fy Ngwarcheidwad Plant?

- Weithiau, bydd gan blant a gwarcheidwad plant farn wahanol ar yr hyn ddylai ddigwydd a pha drefniadau fyddai orau i ti. Os bydd hyn yn digwydd, paid â phoeni, ni fyddi di'n cynhyrfu nac yn pechu'r gwarcheidwad plant.
- Bydd y gwarcheidwad plant bob amser yn sicrhau bod y llys teulu'n clywed beth sydd gen ti i'w ddweud, a bydd yn dweud wrth y llys teulu pam y mae hyn yn wahanol i'w farn ef.
- Os bydd gen ti a'r gwarcheidwad plant farn wahanol, efallai y bydd dy gyfreithiwr hefyd yn trafod hyn gyda ti.

### Sut y gallaf gysylltu â fy Nghwarcheidwad Plant?

- Bydd y gwarcheidwad plant yn rhoi ei rif ffôn a'i gyfeiriad e-bost i ti a byddwch yn penderfynu ar y ffordd orau i ti gysylltu ag ef.
- Bydd y gwarcheidwad plant yn dweud pryd y gelli di ddisgwyl ei weld eto. Bydd yn gwneud yn siwr dy fod yn gwybod pan fydd yr achos llys wedi dod di ben a dy fod yn deall beth oedd y canlyniad.
- Bydd y gwarcheidwad plant yn rhoi gwybod i ti pan fydd ei waith wedi dod i

### Beth os byddaf am gael mwy o wybodaeth?

- Os hoffet ti gael mwy o wybodaeth, mae ein gwefan yn cynnwys rhifau ffôn defnyddiol a manylion sefydliadau sy'n cynnig help i blant a theuluoedd https://www.llyw.cymru/cafcass-cymru/gwahanu-teuluoedd
- Mae ein pecyn gwybodaeth i bobl ifanc hefyd ar gael ar ein gwefan, https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/rhienin-gwahanu-pecyn-gwybodaeth-i-bobl-ifanc.pdf